**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
29 Mawrth 2023

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1. Diben yr offeryn hwn yw rhoi effaith gyfreithiol i benderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch wyth cais Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMO) ac ynghylch cymeradwyo addasiadau i fanylion deiliaid awdurdodiad (tri chais) ar gyfer defnydd bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r penderfyniad o blaid awdurdodi.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig[1].

4. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.

5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol', mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

6. Mae organebau a addaswyd yn enetig (GMOs) yn blanhigion ac yn anifeiliaid sydd ag elfennau genetig sydd wedi'u haddasu gan ddefnyddio technegau biotechnoleg. Mae addasu genetig yn galluogi gwyddonwyr i gynhyrchu planhigion, anifeiliaid a micro-organebau sydd â nodweddion penodol.

7. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig wedi'i gynnwys yn bennaf yn Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd. Caiff deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.

8. Bydd yr ASB yn diweddaru'r gofrestr o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM) awdurdodedig ar ran Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 7(4) o Reoliad a ddargedwir 1829/2003.

---

[1] Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

9. Mae’r offeryn hwn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’i heffaith fwriadedig

10. Diben yr offeryn yw awdurdodi rhoi cynhyrchion sy’n dod o dan wyth cais bwyd a bwyd anifeiliaid GMO ar y farchnad, mewn perthynas â Chymru, ac addasu manylion deiliaid yr awdurdodiadau ar gyfer nifer o awdurdodiadau presennol, mewn perthynas â Chymru.

11. Mae’r wyth cais GMO yn cynnwys chwe chais newydd a dau gais i adnewyddu. Nid oes unrhyw gynnig i awdurdodi’r GMOs ar gyfer amaethu.

12. Pan oedd yn Aelod-wladwriaeth o’r UE, roedd y DU yn derbyn asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod gweithredu, mae Prydain Fawr hefyd wedi mabwysiadu’r un canllawiau technegol a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol ar gyfer Prydain Fawr.

13. Lle bo’r EFSA, cyn diwedd y cyfnod pontio, wedi gwerthuso cais ar gyfer cynnyrch y mae cais hefyd wedi’i gyflwyno i awdurdodau Prydain Fawr ar ei gyfer, mae’r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi penderfynu defnyddio asesiad risg yr EFSA, lle bo hynny’n briodol, wrth ffurfio eu barn annibynnol eu hunain.

14. Mae’r GMOs wedi’u hawdurdodi i’w defnyddio yn yr UE. Mae Cyfraith Bwyd yr UE ar GMOs yn parhau i fod yn gymwys i fwyd a weithgynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon.

15. Mae’r offeryn hwn yn gymwys i Gymru.

16. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi’i llunio yn Lloegr a’r Alban. Bydd y rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn dod i rym ar 26 Ebrill 2023.

## 5. Ymgynghoriad

17. Ar 12 Hydref 2022, lansiodd yr ASB ymgynghoriad wyth wythnos ar y ffactorau cyfreithlon eraill sy’n berthnasol i’r wyth cais GMO am awdurdodi neu adnewyddu, a’r tri chais am addasu manylion deiliaid awdurdodiad. Lansiwyd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.

18. Daeth cyfanswm o 38 o ymatebion i’r ymgynghoriad i law, a hynny gan gyrff masnach, sefydliadau anllywodraethol ac aelodau’r cyhoedd. Nododd y mwyafrif o’r 38 o ymatebwyr eu bod wedi’u lleoli yn y DU. O’r 38 o ymatebion a ddaeth i law, roedd pob un a oedd yn cynrychioli diwydiant (4) yn gefnogol. O’r rhai a ymatebodd fel unigolion neu’r rhai a oedd yn cynrychioli sefydliadau anllywodraethol, roedd gan (2 sefydliad

anllywodraethol, a 32 o unigolion) bryderon ynghylch yr awdurdodiadau arfaethedig.

19. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru am yr ymgynghoriad. Fe wnaeth yr ASB hefyd roi gwybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio, a rhoddodd ddiweddariad i randdeiliaid yng Nghymru eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben.

20. Ystyriwyd ymatebion rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y pedair gwlad (yr ASB, yr ASB yng Nghymru, yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban), yn unol â'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posib.

21. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion dilynol yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ASB.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

22. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r GMOs hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

23. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

24. Anogwyd rhanddeiliaid i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac ni chodwyd unrhyw effeithiau.

## 7. Adolygiad ôl-weithredu

25. Bydd yr offeryn hwn yn cael ei adolygu trwy'r cynlluniau monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, y mae'n ofynnol eu gweithredu yn unol â phob un o'r wyth awdurdodiad GMO.

26. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau bod y cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, fel y'i cyflwynwyd yn ei gais i'r awdurdod priodol, yn cael ei roi ar waith. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol ar weithrediad a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd.

27. Mae Rheoliad a ddargedwir 1829/2003 yn nodi bod awdurdodiadau GMO yn ddilys am ddeng mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd angen adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.

28. Mae Erthyglau 11(1) a 23(1) o Reoliad a ddargedwir 1829/2003 yn nodi bod rhaid i geisiadau am adnewyddiadau ddod i law'r awdurdod priodol o leiaf flwyddyn cyn y dyddiad y daw'r awdurdodiad i ben.